

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	24 Mehefin 2015
<b>TEITL</b>	Adolygiad o Dirweddau Gwarchoddedig Cymru – Cam 2
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig a wneir gan Lywodraeth Cymru.

## **2.0 YR ADOLYGIAD O DIRWEDDAU DYNODEDIG**

- 2.1 Adroddwyd yn wreiddiol ar y mater yn mis Hydref 2014 pan eglurwyd fod adolygiad annibynnol o Dirweddau Dynodedig yn cael ei gynnal yn 2014/15. Roedd Cam 1 o'r gwaith yn edrych ar bwrpas y tirluniau dynodedig a manteision/anfanteision categoriedd tirluniau dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad.
- 2.2 Yn y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor, a gynhaliwyd yn Mawrth 2015, adroddwyd fod casgliadau Cam 1 y gwaith wedi eu derbyn (gellir gweld copi o Adroddiad y Panel ar safle we Llywodraeth Cymru). Bu trafodaeth ar y casgliadau hynny ac fe benderfynwyd anfon sylwadau pellach ar y mater i sylw'r Panel Adolygu.

## **3.0 CAM 2 YR ADOLYGIAD**

- 3.1 Erbyn hyn mae'r Panel Adolygu wedi symud ymlaen i ystyried Cam 2 o'r Adolygiad - sy'n ystyried y modd mae'r Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yn cael eu rheoli a'u llywodraethu. Derbyniwyd papurau cefndirol sydd yn rhoi gwybodaeth am Gam 2 ac mae nifer o gwestiynau y gofynnir am sylwadau arnynt (gweler atodiad).
- 3.2 Mae Cyngor Gwynedd fel sefydliad wedi ymateb yn annibynnol i'r ymgynghoriad hwn. Mae cyfle rŵan fodd bynnag i'r Cydbwyllgor ystyried y mater, cyfleu safbwynt ac ymateb i'r cwestiynau sydd wedi ei gosod gan y Panel Adolygu.
- 3.3 Er gwybodaeth, mae'r Uned AHNE hefyd wedi derbyn copi o ymateb nifer o fudiadau eraill ar yr ymgynghoriad, yn cynnwys

- Parciau Cenedlaethol Cymru (ymateb ar y cyd)
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

- Y Gymdeithas dros AHNE
- Rhai o AHNE eraill Cymru

3.4 Mae'r copïau o'r ymatebion yma ar gael gan yr Uned AHNE os oes unrhyw aelod awydd eu gweld.

#### **4.0 ARGYMHELLIAD**

4.1 I ystyried y materion a godir yn Cam 2 yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, yn cynnwys y cwestiynau a osodwyd gan y Panel Adolygu.

4.2 Cytuno ar ymateb i Cam 2 yr Adolygiad i'w anfon ymlaen i sylw'r Panel Adolygu.

#### **ATODIADAU**

**Copi o lythyr gan Yr Athro Terry Marsden, Cadeirydd, Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru**

**Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, Cam Dau, Cefndir**